

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	24 HYDREF 2023	
Pwnc:	DIWEDDARIAD RHEOLI TRYSORLYS CHWARTER 1 2023/24	
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID	
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151	
Awdur yr Adroddiad:	CLAIRE KLIMASZEWSKI / SIAN A JONES / JEMMA ROBINSON	
Ffôn:	01248 752133	
E-bost:	claire.klimaszewski@ynysmon.llyw.cymru	
Aelodau Lleol:	Amh.	
A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau		
<p>Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi'r adroddiad, y gweithgareddau rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus fel ag yr oeddent ar 30 Mehefin 2023. Bod Adroddiadau Rheoli Trysorlys Chwarter 1 a Chwarter 3 yn cael eu hadolygu a'u derbyn gan y Portffolio Cyllid a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn unig o hyn ymlaen. Bydd yr adroddiadau canol blwyddyn a blynyddol yn dilyn yr un broses h.y. adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn. 		
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Mae'r adroddiad er gwybodaeth ac nid oes unrhyw opsiynau eraill y dylid eu hystyried.		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Cydymffurfio â'r rheoliadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA 2021.		
CH – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa o ran ein gweithgareddau rheoli trysorlys a sut y mae'r penderfyniadau ar fenthyca a buddsoddi wedi cael eu gwneud yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ni fydd y penderfyniad sydd yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn yn effeithio ar gyllideb y Cyngor.		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Dim sylwadau pellach.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim sylwadau pellach.
4	Adnoddau Dynol	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol

8	Sgriwtini	Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn craffu ar yr adroddiadau canol blwyddyn a blynyddol. Nid yw'r Côt yn nodi bod angen unrhyw graffu pellach ar yr adroddiadau ar gyfer y chwarter cyntaf a'r trydydd chwarter.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.
10	Eraill	Dim
E – Aseu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn allweddol er mwyn hwyluso cynaliadwyedd anghenion hirdymor yr Ynys gan fod cynlluniau benthyca yn helpu i gyllido gwariant cyfalaf i sicrhau bod asedau ar gael nawr ac yn y dyfodol. Mae'n rhaid i gynlluniau trysorlys hefyd fod yn fforddiadwy er mwyn sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu rhoi dan anfantais o ganlyniad i benderfyniadau Rheoli Trysorlys sy'n cael eu gwneud yn y tymor byr a chanolig.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Rhaid i'r Strategaeth a'r gweithgareddau Rheoli Trysorlys fod yn fforddiadwy er mwyn lliniaru unrhyw effaith ar y dyfodol. Gall rhywfaint o wariant cyfalaf sy'n cael ei gyllido drwy fenthyca megis y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, a chynlluniau Buddsoddi i Arbed eraill a gyllidir gan fenthyca helpu i leihau costau yn y dyfodol.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod â'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.	Mae gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn aml iawn yn cyllido prosiectau cyfalaf mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini a effeithir yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut.	Mae dinasyddion Ynys Môn yn cael cyfle i ddweud eu dweud fel rhan o'r ymgynghoriad blynyddol ar y rhaglen gyfalaf, ac mae elfennau o'r rhaglen honno yn ddibynnol ar weithgareddau Rheoli Trysorlys.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a amddiffynnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Mae'r asedau newydd sy'n cael eu cyllido drwy fenthyca yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig. Mae rhaglenni ailwampio ac adnewyddu hefyd yn helpu i wella hygyrchedd a chaniatáu amrywiaeth.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rheini sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Mae monitro gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn ofyniad statudol, ac nid yw hwn yn benderfyniad strategol.

7	<p>Nodwch unrhyw effeithiau posibl byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.</p>	<p>Mae rhai o'r prosiectau a gafodd eu cyllido drwy fenthyca wedi cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac wedi cynyddu'r defnydd ohoni, megis yr ysgolion cyfrwng Gymraeg a gafodd eu hadeiladu fel rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif / rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.</p>
<p>F - Atodiadau:</p>		
<p>Atodiad A –Adroddiad Rheoli Trysorlys Chwarter 1 2023/24 Atodiad B – Diweddariad Economaidd Atodiad C – Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer 2023/24 fel ag yr oeddent ar 30 Mehefin 2023.</p>		
<p>FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):</p>		
<ul style="list-style-type: none"> • Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 – gweler y ddolen isod • Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2022/23 – gweler y ddolen isod https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk 		

1. Cefndir

- 1.1** Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA 2021 (Y Côt). Mae'r Côt yn nodi bod rhaid diweddarau Aelodau ar y dangosyddion darbodus sy'n edrych i'r dyfodol pob chwarter o leiaf. Mae hyn yn ofyniad newydd ar gyfer y blynyddoedd 2023/24 a thu hwnt. Yn y gorffennol, roedd adroddiad canol blwyddyn ac adroddiad alldro yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn. Mae'r Côt yn nodi nad oes rhaid i'r adroddiadau chwarterol gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn ond y dylent fod yn rhan o adroddiadau monitro refeniw a chyfalaf rheolaidd yr Awdurdod.
- 1.2** Mae Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 (DSRhT) yn nodi holl gynlluniau a strategaethau Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Nid oedd unrhyw newidiadau polisi nac unrhyw achos o fynd yn groes i ofynion y DSRhT yn ystod chwarter 1. Nod yr adroddiadau chwarterol yw amlinellu'r cynnydd ar y gweithgareddau rheoli trysorlys yn unol â DSRhT 2023/24.

2. Cyflwyniad

- 2.1** Mae rheoli trysorlys yn golygu tasgau i sicrhau bod digon o arian parod yng nghyfrif cyffredinol y Cyngor i dalu biliau dydd i ddydd a threfnu i fuddsoddi unrhyw arian parod sydd dros ben yr hyn sydd ei angen yn y cyfrif cyffredinol, mewn cyfrifon sicrwydd uchel, megis banciau yn y DU â statws credyd uchel. Yn unol â'r Côt, blaenoriaeth y Cyngor yw diogelu ei gyllid a sicrhau bod digon o arian parod ar gael iddo pan fo angen fel bod gan y Cyngor hylifedd digonol. Yr ystyriaeth olaf yw elw. Mae'r Cyngor yn buddsoddi er mwyn sicrhau'r cyfraddau uchaf posib o blith y sefydliadau diogel sydd ar gael iddo ac sy'n bodloni'r meini prawf yn DSRhT 2023/24. Yr elfen olaf o Reoli Trysorlys ydi rheoli portffolio benthycar Cyngor i sicrhau nad ydi'r Cyngor un benthycar gormod a bod y costau refeniw yn gysylltiedig â'r benthyciadau hynny'n fforddiadwy.
- 2.2** Rhaid i'r Cyngor redeg cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n gyffredinol y bydd yr arian parod a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â'r gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol, a bod yr arian sydd dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartion risg isel, gan sicrhau hylifedd digonol yn y lle cyntaf, cyn ystyried yr elw o'r buddsoddiadau.
- 2.3** Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu arweiniad ynghylch anghenion benthycar Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr, neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy ac, o bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd ag amcanion cost neu risg y Cyngor. Mae cyswllt agos rhwng gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor a Strategaeth Gyfalaf 2023/24, Rhaglen Gyfalaf 2023/24 a'r adroddiadau chwarterol sy'n monitro'r gyllideb gyfalaf gan fod rhan fawr o weithgareddau trysorlys yn ymwneud â benthycar er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, caniateir i'r Cyngor fenthycar i gyllido gwariant cyfalaf ac nid costau refeniw yn unig, oni bai bod Llywodraeth Cymru'n penderfynu cyfalafu gwariant refeniw eithriadol penodol, megis cyfalafu ôl-daliadau cyflog cyfartal. Mae'r strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf flynyddol a'r DSRhT yn cefnogi blaenoriaethau allweddol y Cyngor sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023/28.

3. Diweddariad Economaidd

3.1 Mae ymgynghorwyr rheoli trysorlys allanol y Cyngor, Link Group, yn anfon nifer o ddiweddariadau bob wythnos megis adroddiadau economaidd a chredyd, i helpu swyddogion y Cyngor ac Aelodau wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae Link Group wedi darparu diweddariad economaidd ar gyfer y chwarter cyntaf, sydd ar gael yn Atodiad B. Ers hynny mae'r sefyllfa economaidd wedi newid ac adroddir ar hynny yn yr adroddiad canol blwyddyn. Yn ddiweddar, mae Link Group wedi darparu'r rhagolygon canlynol ar gyfer cyfraddau llog ar 5 Hydref 2023:-

Tabl 1 - Rhagolygon ar gyfer y Gyfradd Banc Sylfaenol a Chyfraddau'r BBGC mis Rhagfyr 2023 i fis Medi 2025

	Rhag 2023	Maw 2024	Meh 2024	Med 2024	Rhag 2024	Maw 2025	Meh 2025	Med 2025
Cyfradd Banc (%)	5.25%	5.25%	5.25%	5.00%	4.50%	4.00%	3.50%	3.00%
Cyfradd 5 mlynedd y BBGC (%)	5.10%	5.00%	4.90%	4.70%	4.40%	4.20%	4.00%	3.90%
Cyfradd 10 mlynedd y BBGC (%)	5.00%	4.90%	4.80%	4.60%	4.40%	4.20%	4.00%	3.80%
Cyfradd 25 mlynedd y BBGC (%)	5.40%	5.20%	5.10%	4.90%	4.70%	4.40%	4.30%	4.10%
Cyfradd 50 mlynedd y BBGC (%)	5.20%	5.00%	4.90%	4.70%	4.50%	4.20%	4.10%	3.90%

3.2 Yn y DSRhT ar gyfer 2023/24 ym Mawrth 2023, roedd disgwyl i gyfradd y banc gyrraedd 4.5% yn yr haf a gostwng yn raddol yn 2024 a 2025. Mae chwyddiant, yn cynnwys chwyddiant craidd, wedi parhau i fod yn uwch na'r hyn yr oedd Banc Lloegr wedi ei ragweld, ac am gyfnod hwy. Mae disgwyl i gyfradd sylfaenol Banc Lloegr gyrraedd 5.25%, fodd bynnag, os ydi chwyddiant yn dal i godi mae'r gyfradd yn debygol o fod yn uwch na hyn. Mae'r rhagolygon yn y DSRhT ar gyfer y gyfradd sylfaenol yn is na'r rhai sydd wedi'u nodi uchod ac, er eu bod yn gostwng, maent yn debygol o fod yn uwch na'r amcangyfrifon yn y DSRhT. Mae hyn oherwydd nad ydi chwyddiant yn gostwng yn ddigon cyflym.

3.3 Mae'r Cyngor yn elwa o gyfradd sylfaenol uwch ar gyfer buddsoddi ei arian parod dros ben, ac mae wedi ennill dros £1m mewn llog. Fodd bynnag, mae benthyciadau'n costio mwy i'r Cyngor ers i Fanc Lloegr ddechrau codi cyfraddau llog er mwyn ceisio rheoli chwyddiant. Felly, bydd rhaid gohirio cymryd benthyciadau allanol hyd nes ei bod hi'n amhosib parhau i gyllido gwariant cyfalaf gan ddefnyddio balansau arian parod y Cyngor (benthyca mewnol).

4. Sefyllfa'r Cyngor ar 30 Mehefin 2023

- 4.1 Benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) - mae benthyciadau allanol BBGC y Cyngor yn parhau yr un fath â'r hyn a nodwyd yn y DSRhT ym mis Mawrth 2023, ac eithrio ad-dalu prifswm o £5k ar fenthyciadau blwydd-dal. Mae hyn oherwydd bod rhaid osgoi benthycia tra bo cyfraddau llog yn parhau i godi. Yn lle benthycia, mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio ei falansau arian parod i gyllido gwariant cyfalaf. Mae hyn yn unol â'r cyngor a dderbyniwyd gan Link Group ar fenthycia yn yr hinsawdd bresennol. Mae'r costau cyfle hyn yn golygu bod llai o falansau ar gael i'w buddsoddi, fodd bynnag, mae costau benthycia'n uwch na'r elw ar fuddsoddiadau. Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i dalu ei gredydwy'r a chyflogau, mae'n rhaid sicrhau bod arian digonol ar gael mewn cyfrifon galw. Fel arfer, mae'r cyfraddau llog ar y math yma o gyfrifon yn is, felly, mae'r Cyngor yn dal i allu gwneud arbedion rhesymol ar y llog sy'n daladwy wth ddefnyddio balansau arian parod.

Tabl 2 – Benthyciadau BBGC sy'n weddill 30 Mehefin 2023

Benthyciadau BBGC ar 30 Mehefin 2023			
	BBGC / BBGC – Aeddfedu	BBGC EIP/ Blwydd-dal	Cyfanswm Benthyciadau BBGC ar 30 Mehefin 2023 £'000
	£'000	£	£'000
Benthyciad sy'n weddill	119,400	173	119,573
Oes ar gyfartaledd (blynyddoedd)	30.82	4.06	35
Cyfradd ar gyfartaledd (%)	4.53	9.42	14

- 4.2 Benthyciadau Salix – mae Salix yn sefydliad Llywodraeth Cymru sy'n cynnig benthyciadau di-log ac, yn fwy diweddar, grantiau ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r amgylchedd ac i helpu cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at gyrraedd eu targed sero net erbyn 2023. Roedd DSRhT 2023 yn dangos bod gan y Cyngor fenthyciadau Salix di-log gwerth cyfanswm o £3.099m ym mis Chwefror 2023. Ers hynny mae'r Cyngor wedi derbyn ychwaneg o'r benthyciadau a gymeradwywyd gan Salix oherwydd bod y prosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyciadau Salix wedi gwneud rhagor o gynnydd. Ar 30 Mehefin 2023, roedd gan y Cyngor fenthyciadau Salix gwerth £5.261m. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu had-dalu dros gyfnod o 8 neu 10 mlynedd, yn dibynnu ar y cytundeb, ac mae 2 ad-daliad y flwyddyn ar gyfer pob benthyciad. Mae'r benthyciadau hyn wedi cyllido goleuadau stryd LED, goleuadau LED mewn ysgolion a chanolfannau hamdden a nifer o brosiectau cynaliadwy eraill.

Tabl 3 – Benthyciadau Eraill sy'n Weddill ar 30 Mehefin 2023

Benthyciadau eraill ar 30 Mehefin 2023							
	Benthyciad Salix 1 £'000	Benthyciad Salix 2 £'000	Benthyciad Salix 3 £'000	Benthyciad Salix 4 £'000	Benthyciad Salix 5 £'000	Benthyciad Salix 6 £'000	CYFANSWM £'000
Balans sy'n Weddill	16.5	114.0	350	158.4	1,873.7	2,748.7	5,261.1
Dyddiad Ad-dalu	2024/25	2025/26	2027/28	2029/30	2031/32	2035/36	
Cyfradd llog (%)	-	-	-	-	-	-	-

5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

- 5.1 Cafodd y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2023/24, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2023. Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, mae'n nodi blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor, sef:-

- Diogelwch cyfalaf
- Hylifedd
- Elw

5.2 Mae'r Cyngor yn dal i sicrhau'r elw (enillion) uchaf posib ar ei fuddsoddiadau, gan sicrhau lefel briodol o ddiogelwch a hylifedd, yn unol ag archwaeth risg y Cyngor.

5.3 Mae cyfraddau llog wedi parhau i gynyddu yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, ac mae'r Cyngor wedi elwa drwy fuddsoddi mewn buddsoddiadau diogel cyfnod penodol. Fodd bynnag, oni bai bod chwyddiant yn cynyddu, nid yw'r cyfraddau'n debygol o godi'n uwch na'r gyfradd bresennol, sef 5.25%.

5.4 Teilyngdod Credyd – Nid oes llawer o newid wedi bod i gyfraddau credyd yn ystod y chwarter dan sylw. Fodd bynnag, mae'r swyddogion yn parhau i'w monitro'n agos, ynghyd â dulliau eraill o sicrhau teilyngdod credyd, er mwyn sicrhau mai dim ond gwrthbartïon addas sy'n cael eu hystyried ar gyfer cyfleoedd buddsoddi.

5.5 Meini Prawf ar gyfer Gwrthbartïon Buddsoddi – Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn cwrdd â gofyniad y swyddogaeth rheoli trysorlys.

5.6 Cydbwysedd o ran Buddsoddi – Ar 30 Mehefin 2023 roedd balans buddsoddiadau'r Cyngor yn £53.097m. Roedd yr elw ar y buddsoddiadau hyn, rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Mehefin 2023, yn £0.457m, a disgwylir i gyfanswm y llog derbyniadwy ar y buddsoddiad sydd wedi'u rhestr isod fod yn £1.287m ar gyfer 2023/24. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn uwch wrth i fuddsoddiadau newydd gael eu gwneud pan fydd y rhain wedi aeddfedu. Fodd bynnag, mae'r balansau arian parod yn lleihau wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, felly ni fydd yn ymarferol adnewyddu pob un o'r buddsoddiadau hyn pan fyddant wedi aeddfedu.

Gwrthbarti	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog %	Prifswm ar 30 Mehefin 2023 £	Amcangyfrif o'r llog a enillir yn ystod y cyfnod £	Amcangyfrif o Gyfanswm y Llog ar y buddsoddiadau hyn yn 2023/2023 £
Natwest – Cyfrif Galw	01/04/2023	Amh.	1.25%	10,597,265	36,971	165,062
Bank of Scotland – Cyfrif Galw National	18/04/2023	Amh	4.90%	7,500,000	73,500	350,384
Westminster Bank – Cyfnod Penodol	11/01/2023	11/07/2023	4.10%	10,000,000	101,096	113,452
Santander	10/02/2023	10/05/2023	4.00%	-	32,055	32,055
Santander	10/05/2023	10/11/2023	4.76%	7,500,000	49,882	180,945
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	06/04/2023	06/07/2023	4.17%	5,000,000	48,555	51,982
Goldman Sachs	22/12/2022	22/06/2023	3.83%	-	64,533	64,533

Gwrthbarti	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog %	Prifswm ar 30 Mehefin 2023 £	Amcangyfrif o'r llog a enillir yn ystod y cyfnod £	Amcangyfrif o Gyfanswm y Llog ar y buddsoddiad au hyn yn 2023/2023 £
Goldman Sachs	22/06/2023	22/12/2023	5.52%	7,500,000	9,074	208,701
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	25/10/2022	25/04/2023	3.80%	-	12,493	12,493
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	25/04/2023	25/10/2023	4.30%	5,000,000	38,877	107,795
Cyfanswm				53,097,265	467,035	1,287,402

5.7 Dyma grynodeb o'r gweithgareddau buddsoddi yn ystod chwarter 1:

- Ar 06 Ebrill 2023, fe wnaeth Cyngor Sir Ynys Môn fuddsoddi £5m gyda Chymdeithas Adeiladu Nationwide ar gyfradd llog o 4.17%. Fe wnaeth y buddsoddiad hwn aeddfedu ar 06 Gorffennaf 2023 a chafodd ei dreiglo ymlaen am 6 mis arall ar gyfradd llog o 5.47%.
- Ar 25 Ebrill 2023, fe wnaeth buddsoddiad gwerth £5m gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam aeddfedu ac fe'i trosglwyddwyd ymlaen am 6 mis arall ar gyfradd llog o 4.3%
- Ar 10 Mai 2023 fe wnaeth buddsoddiad gwerth £7.5m gyda Santander aeddfedu a chafodd ei dreiglo ymlaen am 6 mis arall ar gyfradd llog o 4.76%.
- Ar 22 Mehefin 2023 fe wnaeth buddsoddiad gwerth £7.5m gyda Goldman Sachs aeddfedu a chafodd ei dreiglo ymlaen am 6 mis arall ar gyfradd llog o 5.52%.
- Roedd y gyllideb llog derbyniadwy o £1.424m a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar y cynnydd mewn cyfraddau llog ac, o ganlyniad roedd mwy o gyfle i fuddsoddi arian parod dros ben. Rhagwelir y gellir cwrdd â'r gyllideb llog derbyniadwy yn 2023/24.

5.8 Terfynau Awdurdodedig – Fe all y swyddogion gadarnhau na aethpwyd yn uwch na'r terfynau awdurdodedig a nodwyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2023.

6. Aildrefnu Dyledion

Mae'r cyfleoedd i aildrefnu dyledion wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y chwarter presennol gan fod enillion gilt, sy'n tanategu cyfraddau BBGC a benthyciadau'r farchnad, wedi codi ryw fymryn. Cwblhawyd ymarfer ym mis Mehefin 2023, a ddangosodd y byddai newid y buddsoddiadau presennol am fuddsoddiadau newydd yn sicrhau disgowntiau ond, oherwydd y cyfraddau llog uwch byddai'r llog a fyddai'n daladwy hyd nes y byddai'r benthyciadau hynny'n aeddfedu yn llawer iawn uwch ac, felly'n anfforddiadwy gan y byddai'r costau referniw cyllido cyfalaf yn cynyddu.

7. Cydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthyca fforddiadwy. Yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2023, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodwyd yn Natganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24. Mae Atodiad C yn rhoi diweddariad ar y dangosyddion darbodus fel ag yr oeddent ar 30 Mehefin 2023. Nid yw'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) yn rhagweld unrhyw anawsterau eleni nac yn y blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.

Mae'r holl weithrediadau rheoli trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor.

MARC JONES
CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151

Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r rhagolygon

- Yn ystod chwarter cyntaf 2023/24 gwelwyd:-
 - 0.2% m/m o gynnydd mewn GDP ym mis Ebrill, yn rhannol oherwydd llai o streicio;
 - Chwyddiant CPI yn gostwng o 10.1% i 8.7% ym mis Ebrill, cyn aros ar 8.7% ym mis Mai. Dyma oedd y darlleniad uchaf yn y G7;
 - Chwyddiant CPI craidd yn cynyddu ym mis Ebrill a mis Mai, gan godi i 7.1%, sef y lefel uchaf ers 31 mlynedd;
 - Marchnad lafur dynnach ym mis Ebrill, wrth i'r gyfradd cyfartaledd 3 mis y gyfradd flynyddol (3mwy) ar gyfer mesur enillion cyfartalog gynyddu o 6.1% i 6.5%;
 - Cynnydd pellach o 75bps mewn cyfraddau llog yn ystod y chwarter, gan godi Cyfradd y Banc o 4.25% i 5.00%;
 - Enillion gilt 10 mlynedd yn agos at gyrraedd ffigyrau brig y "Gyllideb fach", wrth i chwyddiant godi'n sydyn.
- Mae'r economi wedi dod drwyddi'n well na'r disgwyl oherwydd chwyddiant uwch. Mae'r cynnydd o 0.2% m/m mewn GDP gwirioneddol ym mis Ebrill, yn dilyn y cwtogiad o 0.3% m/m ym mis Mawrth, yn codi gobeithion y gellir osgoi dirwasgiad eleni. Roedd rhywfaint o'r cynnydd ym mis Ebrill o ganlyniad i lai o streiciau gan weithwyr trên ac athrawon yn y mis yna. Hefyd, mae'n debyg bod y gostyngiad mewn gweithgarwch mewn meysydd eraill ym mis Ebrill hefyd yn ostyngiad dros dro. Fe gyfranodd y streiciau gan feddygon iau a gweision sifil at ostyngiad mewn allbynnau iechyd (0.9% m/m) a chynnydd pitw o 0.1% m/m mewn gweinyddiaeth gyhoeddus.
- Roedd y gostyngiad yn y Mynegai Rheolwyr Prynu (PMI) o 54.0 ym mis Mai i 52.8 ym mis Mehefin, sef y lefel isaf mewn tri mis (>50 pwynt i ehangu'r economi, <50 i ostwng) yn waeth na'r 53.6 a ragwelwyd. Gwelwyd gostyngiad yn y PMI ar gyfer gwasanaethau a chynhyrchu. Roedd y gostyngiad yn y PMI ar gyfer gwasanaethau yn fwy (o 55.2 i 53.7), ond mae'n dal i fod yn gyson â chynnydd blynyddol o 2% mewn gweithgareddau gwasanaethau. Roedd y gostyngiad yn y PMI ar gyfer cynhyrchu yn llai (o 47.1 i 46.2), ond mae'n gyson â'r raddfa flynyddol ar gyfer allbwn cynhyrchu yn gostwng -0.8% ym mis Ebrill i tua -5.0%. O edrych ar y ffigyrau moel, mae'r mynegai cyfansawdd PMI yn awgrymu y bydd y cynnydd o 0.1% ch/ch mewn GDP yn Ch1 2023, yn cael ei ddilyn â chynnydd o 0.2% ch/ch yn Ch2 2023.
- Yn y cyfamser, roedd y cynnydd o 0.3% m/m mewn gwerthiant manwerthu ym mis Mai lawer gwell na'r disgwyl, sef gostyngiad o 0.2% m/m, ac roedd yn dilyn y cynnydd cadarn o 0.5% m/m a welwyd ym mis Ebrill. Roedd rhywfaint o'r cynnydd o ganlyniad i'r tywydd mwynach. Yn wir, gwelwyd y cynnydd mwyaf, sef cynnydd o 2.7%, mewn gwerthiannau nad oeddent o siopau wrth i bobl brynu nwyddau ar gyfer yr awyr agored. Ond llwyddodd y siopau adrannol i sicrhau cynnydd o 0.6% m/m mewn gwerthiant ac fe berfformiodd yr is-sector nwyddau cartref yn dda yn ogystal. Ar y cyfan, roedd y ffigyrau'n lawer gwell na'r hyn yr oedd y dadansoddwyr wedi'i ddarogan. Hefyd, fe wnaeth y GfK, sy'n mesur hyder defnyddwyr, godi o -27 i -24 ym mis Mehefin, sef ffigwr uchaf ers 17 mis.
- Mae nifer o ffactorau y tu ôl i gadernid yr economi yn ddiweddar, yn cynnwys mwy o weithgarwch yn dilyn y pandemig, aelwydydd yn gwario rhywfaint o'r arian y gwnaethant ei gynilo yn ystod y pandemig, a'r farchnad lafur dynn a chefnogaeth gan y llywodraeth, sydd wedi cefnogi incwm aelwydydd. Er hynny, wrth i'r gefnogaeth gan y llywodraeth edwino, mae incymau gwirioneddol aelwydydd yn annhebygol o dyfu'n sydyn. Hefyd, mae'r cyfraddau llog uwch yn golygu bod GDP yn debygol o ostwng yn hwyrach yn y flwyddyn. Ein rhagdybiaeth ganolog yw y bydd chwyddiant yn gostwng i'r targed o 2.0%, dim ond os bydd y Banc yn achosi dirwasgiad drwy godi'r cyfraddau o 5.00% ar hyn o bryd i o leiaf 5.5% a chadw'r cyfraddau ar y lefel honno hyd nes canol 2024 o leiaf. Mae ein cydweithwyr yn Capital Economics yn rhagweld nad ydi oddeutu 60% o'r llusgiad ar weithgareddau gwirioneddol, yn deillio o'r cynnydd mewn cyfraddau, wedi brathu eto, ac y bydd y llusgiad ar gyfradd chwarterol twf GDP gwirioneddol dros y flwyddyn nesaf tua 0.2ppts yn uwch na'r hyn a welwyd yn ystod flwyddyn diwethaf.

- Tynhaodd y farchnad lafur dros y chwarter a gwelwyd twf cyflogau'n dechrau cyflymu unwaith eto. Roedd y galw am lafur yn uwch na'r hyn a ragwelwyd. Gwelwyd cynnydd yn y newid chwarterol mewn cyflogaeth o +182,000 ym mis Mawrth i +250,000 ym mis Ebrill. Yn y cyfamser, fe wnaeth y cyflenwad llafur barhau i wella gan gynyddu gan 303,000 yn y tri mis hyd at Ebrill. Cefnogwyd hyn ymhellach â gostyngiad o 140,000 mewn anweithgarwch wrth i bobl ddychwelyd i'r gwaith ar ôl ymddeol neu gyfnod yn gofalu (ond gwelwyd anweithgarwch oherwydd salwch hirdymor yn parhau i gynyddu). Ond, nid oedd hyn yn ddigon i wrthbwysu'r cynnydd sylweddol mewn cyflogaeth ac, felly, syrthiodd y raddfa diweithdra o 3.9% i 3.8%.
- Oherwydd y farchnad lafur dynnach, gwelwyd twf cyflogau ym mis Ebrill, er mai'r prif reswm am hynny'n fwy na thebyg oedd y cynnydd o 9.7% yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ar y 1af o Ebrill (o'i gymharu â chynnydd o 6.6% ym mis Ebrill y llynedd). Dechreuodd y gyfradd enillion cyfartalog 3myd gynyddu unwaith eto o 6.1% i 6.5% (cyfartaledd 6.1%) ac mae twf cyflogau'n dal i fod yn gyflymach yn y DU nac yn yr UD ac yn Ardal yr Ewro. Hefyd, cynyddodd twf cyflogau rheolaidd y sector breifat o 7.1% 3myd i 7.6%, sy'n uwch o lawer na'r hyn a ragwelwyd, gyda'r Banc yn darogan y byddai'n llai na 7.0%. Ar y cyfan, mae'r llacio a welwyd yn y farchnad lafur yn ymddangos fel petai wedi arafu ym mis Ebrill ac mae twf cyflogau rheolaidd y sector breifat yn uwch o lawer na'r hyn a ragwelwyd gan y Banc.
- Arhosodd chwyddiant CPI yr un fath ym mis Mai, 8.7%, (8.4% ar gyfartaledd) ac, yn fwy pryderus fyth efallai, cynyddodd chwyddiant craidd CPI unwaith yn rhagor, o 6.8% i 7.1%, sef y gyfradd uchaf ers 31 mlynedd. Mae chwyddiant craidd wedi parhau i gynyddu yn y DU ers y cynnydd sydyn o 6.2% i 6.8% ym mis Mawrth ond mae'n arafu yn yr UD ac yn Ardal yr Ewro (wedi gostwng i 5.3% yn yr ardaloedd hyn). Y cynnydd pellach mewn chwyddiant tanwydd, o -8.9% i -13.1%, a'r ail ostyngiad mewn chwyddiant bwyd mewn cynifer o fisoedd, o 19.3% i 18.7%, sydd i gyfrif am y diffyg cynnydd cyffredinol mewn chwyddiant CPI. Ac mae'r gostyngiad a gynlluniwyd ar gyfer prisiau cyfleustodau blynyddol cyfartalog, o £2,500 i £2,074 ar y 1af o Orffennaf, yn golygu bod chwyddiant CPI yn debygol o ostwng yn ystod y misoedd nesaf. Ond, y broblem yw bod y cynnydd diweddar mewn chwyddiant craidd a'r ail gyflymiad mewn twf cyflogau yn dangos bod pwysau chwyddiant domestig yn dal i fagu nerth.
- Mae hyn yn awgrymu bod gan y Banc fwy o waith i'w wneud na'r Fed neu'r EBC. Yn wir, roedd Banc Lloegr yn eithaf hebogaidd yn y cyfarfod ym mis Mehefin. Gwelwyd hyn yn bennaf ym mhenderfyniad yr MPC i gyflymu'r cynnydd o'r 25bps a welwyd yn y ddau gyfarfod blaenorol. Roedd y bleidlais o 7-2, gyda dim ond dau aelod yn pleidleisio i gadw'r cyfraddau'r un fath ar 4.50%, yn dangos eu bod yn cefnogi dwysau'r frwydr yn erbyn chwyddiant uchel.
- Er hynny, nid yw'r Banc wedi ymrwmo i gynnydd pellach mewn cyfraddau nac wedi awgrymu mai codiadau o 50bps fydd y norm o hyn ymlaen. Dywedodd bod "maint y cynnydd annisgwyl diweddar mewn amcangyfrifon swyddogol o dwf cyflogau a chwyddiant CPI gwasanaethau wedi awgrymu bod angen cynnydd o 0.5 pwynt canran mewn cyfraddau llog yn y cyfarfod hwnnw." Hefyd, ni wnaeth y Pwyllgor nodi yn ei gyngor ymlaen llaw y byddai unrhyw godiadau pellach yn amodol ar y data. Fodd bynnag, yn ôl pob tebyg, yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol o ran chwyddiant a'r data cyflogaeth, bydd rhaid i'r Banc godi'r cyfraddau i 5.5% o leiaf a chadw'r cyfraddau ar eu lefel uchaf nes canol 2024. Rydym yn dal yn credu mai dim ond mater o amser yw hi cyn y bydd y cynnydd mewn cyfraddau'n gwanhau'r economi ddigon i'w rhoi mewn dirwasgiad. Felly, yn hytrach na chynyddu i rhwng 6.00%-6.25%, fel sydd wedi'i ddarogan gan y farchnad ar hyn o bryd, rydym ni'n tybio na fydd y cyfraddau'n codi'n uwch na rhwng 5.50-6.00%. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd y cyfraddau'n cael eu torri yn ystod ail hanner 2024, ac rydym yn disgwyl i'r cyfraddau ostwng i lefel is na'r hyn y mae'r farchnad yn ei ragweld.

- Mae'r dystiolaeth gynyddol bod pwysau prisiau'r DU yn dod yn fwyfwy domestig wedi arwain at ragdybiaethau uwch o ran cyfradd y farchnad ac, ar un adeg, yn hwyr ym mis Mehefin, roedd yr enillion gilt 10 mlynedd wedi codi i 4.49%, yn agos at gyrraedd y ffigyrau brig a welwyd wedi'r "Gyllideb fach". Ers hynny, mae enillion wedi gostwng ryw fymryn yn ôl i 4.38%. Ond, y farn gynyddol yw y bydd cyfraddau yn y DU yn aros yn uwch yn hirach nag yn yr UD ac, felly, mae enillion yn dal i fod fwy na 70 bps yn uwch nag yn yr UD. Tra bod cyfraddau llog uwch yn cael eu cynnwys ym mhrisiau'r farchnad, nid yw'r ergyd y mae hynny'n ei gael ar yr economi'n cael ei ystyried. Dyma pam ein bod ni'n credu ei bod hi'n bosib i ddisgwyliadau gyfradd y farchnad ostwng yn 2024 ac i Gyfradd Sicrwydd 10 Blynedd y BBGC ostwng o 5.20% i 5.00% erbyn diwedd y flwyddyn ac i 4.20% erbyn diwedd 2024.
- Cryfhaodd y bunt o \$1.24 ddechrau mis Ebrill i uchafbwynt blwyddyn o \$1.26 yn gynnar ym mis Mai. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod y risgiau yn gysylltiedig â'r materion bancio byd-eang yn fwy o broblem yn yr UD nac yn y DU. Yna gostyngodd y bunt yn ôl i \$1.23 ddiwedd mis Mai, cyn codi eto i \$1.28 ganol mis Mehefin wrth i'r data chwyddiant CPI craidd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin awgrymu'n gryf y byddai'n rhaid i Fanc Lloegr godi'r cyfraddau'n uwch na'r Fed neu ECB er mwyn delio â chwyddiant domestig. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd perfformiad cadarn y bunt yn arafu gan fod codiadau pellach yn y dyfodol agos, er mwyn mynd i'r afael â chwyddiant uchel, yn debygol o wanhau'r twf (a chwyddiant hefyd ryw bryd, gobeithio) i'r fath raddau y gellir gostwng y gyfradd polisi, yn eithaf cyflym o bosib, wrth i dueddiadau'r cylch economaidd ddechrau gostwng o'r diwedd. Mae hyn yn awgrymu bod y codiadau ychwanegol yn annhebygol o roi hwb i'r bunt.
- Yn gynnar ym mis Ebrill, roedd buddsoddwyr yn fwy optimistaidd ynglŷn â thwf GDP yn fyd-eang, gan gynyddu prisiau ecwiti yn y DU. Ond, ni wnaeth y gobaith hwn bara'n hir. Mae'r FTSE 100 wedi gostwng 4.8% ers y 21ain o Ebrill, o tua 7,914 i 7,553, gan ddadwneud rhan o'r cynnydd i 7.9% a welwyd ers y 17eg o Fawrth. Er bod gweithgarwch economaidd wedi bod yn gadarn yn fwy diweddar, mae'r disgwyliadau ar gyfer enillion ecwiti yn fwy digalon. Serch hynny, yn nes ymlaen, fe ddylai ychwaneg o doriadau mewn cyfraddau na'r hyn y mae'r farchnad yn ei ragweld helpu i adfer y FTSE 100.

Cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) ar 11 Mai a 22 Mehefin 2023

- Ar yr 11eg o Fai, penderfynodd MPC Banc Lloegr gynyddu Cyfradd y Banc 25 pwynt sylfaen i 4.50%, ac ar yr 22ain o Fehefin cafwyd cynnydd pellach o 50 pwynt sylfaen i 5.00%. Roedd y bleidlais yn rhanedig - gyda saith aelod yn pleidleisio o blaid y cynnydd a dau yn erbyn.
- Serch hynny, gan fod chwyddiant yn y DU yn uwch o lawer na gwledydd eraill y G7, bydd yn anodd i'r MPC ddarbwylllo buddsoddwyr y gallant leddfu pwysau chwyddiant yn y dyfodol agos. Efallai bod y sôn am fodolau chwyddiant "bregus" y Banc yn rheswm arall pam bod buddsoddwyr gilt yn mynnu premiwm o gymharu â bondiau'r UD ac Ardal yr Ewro, er enghraifft.
- Wrth gwrs, mae'r hyn sy'n digwydd y tu allan i'r DU yn hanfodol bwysig o ran symudiadau mewn enillion gilt. Mae FOMC yr UD eisoes wedi codi cyfraddau tymor byr rhwng 5.00%-5.25%, ac mae cynnydd pellach ar y gweill ar gyfer mis Gorffennaf, tra bo'r ECB yn debygol o gynyddu ei gyfradd Adneuo un waith o leiaf i'r gyfradd uchaf o 3.75%, gyda risg o godiadau pellach.

Rhan o gyngor a dderbyniwyd gan : Link Asset Services

Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys ar gyfer 2023/24 fel ag yr oeddent ar 30 Mehefin 2023

Fforddiadwyedd		2022/23 alldro	2023/24 amcangyfrif	2024/25 cynnig	2025/26 cynnig
1,2	Amcangyfrion [neu ffigyrau gwirioneddol] o gymhareb costau cyllido i'r llif referniw net:				
	Cronfa'r Cyngor	2.78%	2.29%	2.73%	2.86%
	Cyfrif Refeniw Tai (yn cynnwys y setliad)	7.18%	21.14%	26.12%	29.36%
	Cyfanswm	3.27%	4.30%	5.26%	5.85%
Darbodaeth					
3	Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)	✓	✓	✓	✓
	<i>Ydi'r ddyled allanol gros yn < na'r GCC ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn ogystal â'r rhagolygon ar gyfer unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf?</i>		✓	✓	✓
Gwariant Cyfalaf					
4,5	Amcangyfrion [neu ffigurau gwirioneddol] o Wariant Cyfalaf	£'000	£'000	£'000	£'000
	Cyllid y Cyngor	29,510	36,596	8,450	4,959
	Cyfrif Refeniw Tai	11,180	19,888	34,351	27,659
	Cyfanswm	40,690	56,484	42,801	32,618
6,7	Amcangyfrion [neu ffigyrau gwirioneddol] o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf	£'000	£'000	£'000	£'000
	Cronfa'r Cyngor	105,824	113,940	117,679	118,377
	Cyfrif Refeniw Tai	38,287	38,158	63,324	82,183
	Cyfanswm	144,111	152,098	181,003	200,560
8	Terfyn Awdurdodedig	£'000	£'000	£'000	£'000
	: Benthyciadau Cyffredinol	175,000	182,000	210,000	230,000
	: Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000
	: Cyfanswm	180,000	187,000	215,000	235,000

9	Ffin Weithredol	£'000	£'000	£'000	£'000
	: Benthyciadau Cyffredinol	170,000	177,000	205,000	225,000
	: Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	5,000	5,000	5,000
	: Cyfanswm	175,000	182,000	210,000	230,000
10	Dyledion Allanol Gwirioneddol	123,800			
Rheoli Trysorlys		2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
		alldro	amcangyfrif	cynnig	cynnig
11	Y terfyn ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddwyd am fwy na 364 diwrnod	15,000	15,000	15,000	15,000

